OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 No. 2802 (Cy.300) (C.97)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2011

Gwnaed - - - - 20 Tachwedd 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 17(2) ac 18 o Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010(**1**).

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010;

(b) ystyr "y Gorchymyn Ardollau" ("*the Levy Order*") yw Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008(2)(**2**);

(c) ystyr "blwyddyn ariannol 2011/2012" ("*2011/2012 financial year*") yw 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012 gan gynnwys y dyddiadau hynny.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2012

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3 a 4, daw darpariaethau'r Mesur i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym fel a ganlyn—

(1) adrannau 4(3) a 5(4) ar 28 Tachwedd 2011;

(2) gweddill yr adrannau ar 1 Ebrill 2012.

Darpariaeth drosiannol

3.—(1) O ran y flwyddyn ariannol 2011/2012 mae rhwymedigaethau Bwrdd Ardollau Cymru o dan erthyglau 13(3)(b) (paratoi cyfrifon) a 13(4) (cyflwyno cyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru) o'r Gorchymyn Ardollau wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(**1**) 2010 (mccc 3).
(**2**) O.S. 2008/420 (Cy.39).